

Fforwm Defnyddwyr Ogwen

Tachwedd 7fed 2013

Presennol

Aneurin Phillips - Cadeirydd	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Emyr Williams	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Pete Trumper	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Jenny Crouch	- Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Gunby	- Cyfoeth Naturiol Cymru
Marc Balaam	- Cyngor Gwynedd
Rhys Evans	- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Guto Roberts	- Swyddog y Bartneriaeth
Dewi Roberts	- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
James Holding	- Bwthyn Ogwen
Saskia Herbeing	- Idwal YHA
Mair Huws	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Dewi Davies	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Carys Dafydd	- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Arwel Johnson	- Tenant
Edwina Johnson	- Tenant
Daniel Moncreiff	- Rhyd y Creuau
Gwyn Thomas	- Blaen y Nant
Catrin Roberts	- Cyngor Cymuned Capel Curig
Mair Leverett	- Cyngor Cymuned Llandygai
Paula Roberts	- Prifysgol Bangor
Chris Lloyd	- Tîm Achub Mynydd Ogwen
Catrin Soraya Williams	- Cyfieithydd
Gwynfor Owen	- Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Euros Jones, Cyfoeth Naturiol Cymru; Hywel Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru; Elfyn Jones BMC; Cyngor Cymuned Bethesda.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd - a gofynnodd i bawb gyflwyno eu hunain. Rhoddodd gefndir i'r Fforwm Defnyddwyr gan ddweud bod barn unfrydol wedi bod yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddiwrnod agor y Ganolfan ynghylch sefydlu'r Fforwm. Atgoffodd yr aelodau o brif bwyntiau'r Cylch Gorchwyl, gan bwysleisio mai fforwm rhoi barn, rhannu gwybodaeth ac ymarfer da yn hytrach na gwneud penderfyniadau oedd y Fforwm Defnyddwyr.

2. **Arolwg Ymwelwyr** – Jenny Crouch, Cyfoeth Naturiol Cymru

Cafwyd cefndir cryno i gynllun CAN - Cynllun Cymuned a Natur y cynllun ariannu Ewropeaidd oedd yn bennaf gyfrifol am ariannu menter Ogwen. Dywedodd mai un o brif amcanion y cynllun oedd annog ymwelwyr i ddod i gefn gwlad ac i aros yma am gyfnod hirach. Dywedodd fod £14,500,000 eisoes wedi ei wario mewn ardaloedd cydgyfeiriant o Gymru, yn cynnwys Ystradllyn, Lôn Las Ogwen a Thŷ Hyll. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn ofynnol fel rhan o'r broses ariannu i wneud arolygon ymwelwyr, ac yn Ogwen cyfrifoldeb Rob Mundy fydd casglu gwybodaeth ar gyfer yr arolwg. Fe fydd yn dod i Ogwen bob dydd Gwener - weddill yr wythnos bydd yn bosibl i ymwelwyr lenwi ffurflen arolwg a'u postio yn y bocs pwrpasol. Bydd yr arolygon yn cael eu danfon ymlaen i Ysgol Fusnes Caerdydd. Unwaith y bydd y gwaith wedi ei gwblhau y bydd yn adrodd yn ôl i'r Fforwm gyda'r canlyniadau.

3. **Diweddariad o weithgareddau diweddar yng Ngwm Idwal** - Guto Roberts, Swyddog y Bartneriaeth

- Ymysg yr hyn sydd wedi digwydd yn ddiweddar mae gwaith trwsio llwybrau ac adeiladu terfynau traddodiadol. Ddiwedd y mis bydd hofrennydd yn cario cerrig i fyny'r cwm fel bod modd cwblhau'r gwaith.
- Cynhaliwyd amrywiol deithiau cerdded gan gynnwys taith dan gynllun MOSAIC y Parc Cenedlaethol a Gŵyl Gerdded Conwy.
- Bu nifer o fyfyrwyr a disgyblion ysgol yn ymweld â'r Cwm. Roedd ymateb da wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol gyda myfyrwyr Coleg Menai yn 'retwitio'
- Ar y gweill roedd digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r problemau all gwn eu hachosi.
- Yn dilyn llwyddiant Marathon Eryri - mae'n fwriad i edrych ar y posibilrwydd o drefnu ras o amgylch Llyn Idwal
- Mae cwmni arall wedi bod yn holi ynghylch cynnal ras endurance gan ddefnyddio'r Cwm ar gyfer rhan o'r ras. Niferoedd isel fyddai'n cymryd rhan ond y gobaith yw y byddai'r proffil yn uchel.

Gofynnodd Jenny Crouch os oedd y tywydd gwlyb yn ddiweddar wedi cael effaith ddrwg ar y llwybrau. Ymatebodd Guto Roberts y byddai cerrig camu sylweddol yn cael eu cario gan hofrennydd cyn diwedd y mis - ac y byddai'r rhain yn cael eu gosod yn yr ardaloedd gwlyb.

Rhoddodd Emyr Williams gefndir cryno i'r penderfyniad i sefydlu'r bartneriaeth - cododd yr angen er mwyn cydlynu gwaith yn y Cwm. Canlyniad y bartneriaeth oedd penderfynu datblygu'r safle yn Ogwen. Byddai angen i'r bartneriaeth gyfarfod yn y dyfodol agos i benderfynu ar gyfrifoldebau gweinyddu'r adeilad o ddydd i ddydd.

4. **Y Sefyllfa gyfredol ar y safle** – Pete Trumper – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- Parcio heb arian. Nid yw'r peiriant talu ac arddangos yn gweithio ar hyn o bryd - hyn oherwydd problemau technegol gan ei bod yn fwriad iddynt gymryd taliad drwy gerdyn credyd. Y gobaith yw y bydd yn gweithio yn y 3 -4 wythnos nesaf, mae'r ddysgl lloeren eisoes wedi ei gosod.
- Cafwyd manylion am gynllun sydd ar droed i fonitro sefyllfa'r rhew yn y cwm - fel bod modd i ddringwyr gael manylion am y cyflwr drwy edrych ar y We cyn gadael eu cartref. Mae'n wybyddus bod dringo ar rew nad yw wedi rhewi'n gorn yn gallu bod yn andwyol i'r planhigion Arctig prin. Bydd erial fechan yn cael ei gosod ar wal y ganolfan - fydd yn codi gwybodaeth gan sensoriaid wedi eu gosod tua 8 modfedd dan y ddaear mewn mannau strategol yn y Cwm.
- Sefyllfa gyfredol yr adeilad. Mae rhai problemau'n dal i fodoli - yn arbennig gyda'r system cynaeafu glaw. Bydd y rhain yn cael eu datrys yn ystod y cyfnod 'defect liability' Mae'r contractwyr adeiladu - Derwen Llŷn wedi rhoi'r adeilad ymlaen am wobwr 'Rheolaeth Adeiladu Leol.
- Yn ôl amodau'r cyllidwyr CAN - y mae'n ofynnol bod menter newydd yn cael ei chreu fel rhan o'r cynllun. Cafodd hysbyseb yn holi am ddiddordeb rhannu gofod swyddfa ei osod yn y Daily Post yr wythnos diwethaf - gyda'r dyddiad cau ar Dachwedd 18. Dywedodd fod bwriad y busnes yn gorfod cyd-fynd gyda phwrpasau'r bartneriaeth ai bod yn ofynnol eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog.
- Soniodd Aneurin Phillips am drafodaethau a gafwyd gyda 'SP Energy Networks'i dan ddaearu gwifrau trydan yn yr ardal. Mae hyn bellach ar eu rhaglen waith, ond nid oes amserlen wedi ei osod eto.

5. **Diweddariad ar ddatblygiadau beicio yn yr ardal** - Mark Balaam, Cyngor Gwynedd

Rhoddodd Mark Balaam ddiweddariad ar ddatblygiadau diweddar ar Lôn Las Ogwen. Dywedodd bod gwaith ym Mharc Meurig sydd yn cysylltu gyda'r Lôn Las wedi ei gwblhau; a bod 99% o'r gwaith ar y darn sy'n mynd heibio'r Clwb

Rygbi fel rhan o gynllun gwreiddiol CAN a Llywodraeth Cymru hefyd wedi ei gwblhau. Y gobaith rŵan ydi bod yn llwyddiannus i sicrhau arian ychwanegol gan CAN er mwyn ymestyn y llwybr drwy dwnnel Dinas. Fe fydd yn cyd weithio gyda Cadw a'r gymuned leol dan gynllun o'r enw Ein Treftadaeth, er mwyn cynhyrchu gwybodaeth am 'daith y llechen' ar y Lôn Las. Bydd ymgynghori yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf dan ofal Siân Shakespeare ac yna fe fydd gwaith ar hyrwyddo a chynllun marchnata'r llwybr yn cael ei gomisiynu. Dywedodd Mark Balaam ei fod ef o'r farn bod gan Lôn Las Ogwen y potential i fod gyda'r gorau yng Nghymru.

Dywedodd fod dogfennau marchnata newydd ddod i law Unwaith y bydd y dogfennau wedi cael eu cyfieithu **cytunodd byddai'n eu danfon yn electroneg ymlaen at Carys Dafydd - er mwyn i'r Fforwm gael eu gweld.**

Gofynnodd Arwel Johnson a fyddai'n rhaid i feicwyr ddal ymlaen i ddefnyddio'r A5 wrth fynd o'r ganolfan i ymuno hefo'r llwybr i gyfeiriad Capel Curig? Atebwyd nad oedd cynlluniau cadarn ar hyn o bryd.

Gofynnodd Gwyn Thomas os oedd yn fwriad i drwsio'r giât feics oedd ar yr hen ffordd. Dywedodd ei bod yn cael ei gadael ar agor yn aml ac o ganlyniad bod nifer o'r anifeiliaid yn dianc. Ymatebodd Mark Balaam y byddai'n rhaid cysylltu gyda'r adran briffyrdd. Dewi Roberts from the national Trust said that he would take a look at the gate. Ychwanegodd Dewi Roberts o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol y byddai ef yn cael golwg ar y giât.

Gofynnodd Dewi Davies os oedd 'cownteri cyfrif' wedi eu gosod ar y Lôn Las? - ymatebodd Mark Balaam yn y cadarnhaol a dywedodd fod yr un sydd ym Mhorth Penrhyn oedd wedi cofnodi 100,000 o ymweliadau - a bod un arall newydd ei osod ym Methesda.

6. Ceisiadau i gynnwys eitemau ar yr agenda

- Roedd Daniel Moncreiff wedi holi os oedd modd cael mynediad i'r Ystafell ddehongli ar ôl 4.00yh. Dywedodd ei bod yn aml wedi 4 arnynt yn cyrraedd yno gyda nifer helaeth o blant. Atebodd Emyr Williams fod yr oriau agor cyfredol yn adlewyrchiad o oriau gwaith Guto Roberts, dwedodd bod angen i'r bartneriaeth ddod i gytundeb ynghylch nifer o faterion oedd yn ymwneud â gweinyddu'r adeilad.

Ychwanegodd Pete Trumper ei fod wedi bod yn trafod gyda rheolwr llinell u glanhawraig a bod posibilrwydd y byddai'r oriau agor yn cael eu hymestyn hyd 7.00yh - ond nad oedd hyn wedi ei gadarnhau eto.

Cytunwyd y byddai Carys Dafydd yn e-bostio'r Fforwm gyda manylion yr oriau agor newydd unwaith eu bod wedi dod i law.

- Roedd Chris Lloyd o Dîm Achub Mynydd Ogwen wedi gofyn a oedd modd rhoi mwy o sylw yn y ganolfan newydd i hyrwyddo mynydda diogel, ychwanegodd bod yma gyfle gwych i roi gwybodaeth megis beth i'w wneud pe tase damwain yn digwydd - pwy i ffonio ac ati. Atebodd Mair Huws bod Diogelwch Mynydd yn rhan o'r briff dehongli a bod 5 neges diogelwch wedi cael ei adnabod. Dywedwyd mai dim ond un rac taflenni fyddai yn yr Ystafell ddehongli am mai pwrpas yr Ystafell oedd cyflwyno gwybodaeth yn electroneg - gan gadw'r Ystafell yn lan a thaclus.

7. Unrhyw fater arall

- Cododd Gwyn Thomas fater y cwn unwaith eto - gan ddweud fod problemau gyda cwn yn aflonyddu ac yn lladd defaid yn un barhaus - a bod y niferoedd yn cynyddu. Dywedodd nad oedd y perchnogion yn cymryd sylw o'r arwyddion ar y giatiau. Atebodd Guto Roberts fod y mater wedi cael ei drafod yn ystod y cyfarfod y wardeiniaid a'u bod wedi trafod tybed a fyddai'n bosibl gwahardd cwn yn dymhorol tase'r broblem yn mynd allan o reolaeth.
- Dywedodd Catrin Roberts fod problem ysbwriel hefyd yn cynyddu. Aeth ymlaen i son am roi mwy o ystyriaeth i faterion lleol yn y Ganolfan. Atebodd Emyr Williams ei bod yn fwriad i ddatblygu'r wybodaeth fydd ar gael ar y cyfryngau electroneg - ond na fyddai hynny'n digwydd yn y 6mis nesa. Cafwyd trafodaeth ar sut y dylid casglu gwybodaeth am hanes lleol. Dywedodd Catrin Roberts fod gan Gyfeillion Eglwys St Julietta, Capel Curig wybodaeth eang am hanes lleol. Soniwyd hefyd am y traddodiad mynydda oedd yn yr ardal er efallai y byddai Pen y Pass yn fwy addas efallai i gadw creiriau. Dywedodd Guto y gellid cynnwys gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol - efallai cynnwys darnau o lyfr Oes o Fyw ar y Mynydd gan Margaret Roberts
- Gofynnodd Arwel Johnson beth oedd wedi digwydd i'r hen lechen hefo englyn Ieuan Wyn. Atebodd Guto Roberts ei bod yn ddiogel yn Tan y

Celyn ac y bydd yn cael ei ail - leoli wrth ymyl dechrau'r llwybr am Gwm Idwal.

- Gofynnodd Arwel Johnson hefyd pryd y byddai'n bosibl cael mynediad at y we yn yr adeilad. Atebodd Emyr Williams bod problemau technegol ar hyn o bryd ond ei fod yn ffyddiog y byddai hyn wedi ei ddatrys yn y dyfodol agos, ond ni fydd yn bosibl cael 'Wi-Fi' cyhoeddus yn y ganolfan ar hyn o bryd.
- Cododd Jamie Holding fater ceir yn parcio ar y pafin ar yr A5. Dywedodd fod dau ddigwyddiad allai fod wedi bod yn ddifrifol wedi digwydd yn ddiweddar - un pan gafodd bachgen bychan ei daro i lawr. Cytunwyd y byddai'r Awdurdod yn cysylltu gydag adran y priffyrdd Cyngor Gwynedd i drafod y mater.

Cyn gorffen gofynnodd y Cadeirydd os oedd pawb yn hapus gyda fformat y cyfarfod - cytunwyd fod y fformat anffurfiol y cyfarfod yn addas. Trafodwyd dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf - cytunwyd y dylai gael ei gynnal un ai fis Mawrth neu Ebrill, cyn dechrau'r tymor ymwelwyr.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u cefnogaeth a dechreu y cyfarfod i ben am 5.35pm.